

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I'R : Pwyllgor Moeseg a Safonau

DYDDIAD: 6 Mawrth 2024

TEITL: Recriwtio Cynghorwr Tref a Chymuned ar gyfer
Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir
Ceredigion

PWRPAS YR ADRODDIAD: Er gwybodaeth

CEFNDIR:

Mae Pwyllgor Moeseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion yn cynnwys:
5 aelod lleyg / annibynnol,
2 Aelod Etholedig: Cynghorwyr Sir a
2 Aelod Etholedig: Cynghorwyr Tref a Chymuned.

Bydd angen penodi Cyngorydd Cyngor Tref a Chymuned newydd ar gyfer y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn dilyn ymddiswyddiad y Cyngorydd Jan Culley yn ddiweddar.

Cydnabyddir bod angen proses agored a theg i sicrhau y gall yr holl Gynghorwyr Tref a Chymuned o fewn ardal Ceredigion sy'n mynegi diddordeb gael eu hystyried fel aelodau o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

Y Cynnig

Byddwn yn cysylltu â chlerc pob Cyngor Tref a Chymuned i ofyn am enwau Cynghorwyr ar eu Cyngorau Tref a Chymuned sydd â diddordeb i gael eu hystyried ar gyfer rôl:

Aelod Etholedig Cyngorydd Tref a Chymuned ar Bwyllgor Moeseg a Safonau'r Cyngor.

Bydd y Cyngorau Tref a Chymuned yn derbyn:

- Cylich Gorchwyl y Pwyllgor Moeseg a Safonau
- Gweledigaeth y Pwyllgor Moeseg a Safonau
- Manyleb y person / disgrifiad o'r rôl gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Manyleb y person / disgrifiad o'r rôl gan Gyngor Sir Ceredigion
- Manylion am Lwfansau

Byddwn yn gofyn i Gynghorwyr â diddordeb gyflwyno eu CV i'r Cyngor erbyn 30 Ebrill 2024. Dylai'r CV gynnwys:

- Profiad perthnasol
- Sut maent yn gweddu â disgrifiad y rôl
- Sut maent yn gweddu â manyleb y person
- Sut a pham eu bod yn addas ar gyfer y rôl
- Pam fod ganddynt ddiddordeb yn y rôl
- Beth y gallant gyfrannu at y rôl

Mewn achos pan fydd mwy nag un enw wedi'u cyflwyno, bydd proses dethol briodol yn cael ei dilyn.

Byddwn yn gofyn i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned rannu'r wybodaeth berthnasol gyda'u Haelodau drwy roi'r mater ar yr agenda ar gyfer eu cyfarfod nesaf. **Yn y cyfamser, mae dal gan y Pwyllgor gworwm.**

ARGYMHELLIAD: Dylid nodi'r sefyllfa.

Enw Cyswllt:	Lisa Evans
Swydd:	Swyddog Craffu a Safonau
Dyddiad yr Adroddiad:	26 Chwefror 2024
Acronymau'	